



Wrth i'r hanner tymor cyntaf ddod i ben yma yn Ysgol Aberconwy, roeddem yn awyddus i rannu â chi rai o'n huchafbwyntiau a'r hyn sy'n digwydd rhwng nawr a'r Nadolig ...

Dyna ddechrau i'r flwyddyn ...

Heb os, rydym ni wedi bod ar garlam ers dechrau'n ôl wedi gwyliau'r haf.

Mae taith Blwyddyn 7 i Lan Llyn, ein noson agored, Diwrnod Adfywio Calon a'n Noson wobrwyo wedi cadw'r staff a'r myfyrwyr yn brysur iawn.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen y cylchlythyr hwn. Os oes gennych adborth, neu os ydych yn dymuno cael eich cynnwys yn y rhifyn nesaf, os gwelwch yn dda anfonwch e bost at

info@aberconwy.conwy.sch.uk

Dyddiadau allweddol i ddod:

Gwener, Hydref 27^{ain}: Hanner tymor Llun, Tachwedd 6^{ed}: Myfyrwyr yn dod yn ôl Iau, Tachwedd 23^{ain}: Blwyddyn 8 – 13 Lluniau Ysgol Unigol
Mawrth, Tachwedd 28^{ain}: Noson Rieni Blwyddyn 9
Gwener, Rhagfyr 22^{ain}: Diwrnod ola'r tymor

Dcofiwch, gallwch weld dyddiadau digwyddiadau allweddol ar ein gwefan...

Treuliodd ein myfyrwyr Blwyddyn 7 newydd amser yn yr awyr agored ...

Ar ddechrau'r tymor, treuliodd myfyrwyr Blwyddyn 7 dri diwrnod yng Nglan Llyn, sef canolfan gweithgareddau awyr agored ger Y Bala. Buont wrthi'n gwneud llawer o weithgareddau, gan ddod i adnabod ei gilydd ar yr un pryd.

Edrychwch ar y lluniau isod i weld yr hwyl a'r sbri ...



Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y paratodau olaf yn cael eu gwneud ar gyfer cynhyrchiad Ysgol Aberconwy eleni, sef *the next generation*, **School of Rock The Musical!** Cynhelir perfformiadau ar y dyddiau canlynol ...

- Dydd Mercher, Tachwedd 22ain 7yh
- Dydd Iau, Tachwedd 23ain 7yh
- Dydd Gwener, Tachwedd 24ain 7yh

Tocynnau: Oedolion £6yp a Plant/Myfyrwyr/Henoed £4yp
Anfonwch ebost at info@aberconwy.conwy.sch.uk am fwy o wybodaeth.
Peidiwch â cholli cyfle!



Collingwood Learning yn Ilwyfannu Mirror Mirror ar gyfer ein myfyrwyr Blwyddyn 8 students ...



Mae Mirror Mirror yn rhaglen theatr a gweithdy newydd sy'n mynd i'r afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) ac yn galluogi myfyrwyr i ddysgu beth yw CSE, sut mae paratoi at bwrpas rhyw yn gweithio, sut y gallant aros yn ddiogel a sut i gael cymorth. Mae'r project yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion ledled Gogledd Cymru ac yn cael ei noddi gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â Phroject Gwella Barnardo's.

Afal cyntaf Aberconwy!

Er mai dim ond megis cychwyn y mae'r flwyddyn ysgol, rydym wedi bod wrthi'n gweithio'n galed yng ngardd Ysgol Aberconwy!

Diolch arbennig i Sodexo, sydd wedi creu gwelyau plannu llysiâu newydd, lle bydd llysiâu'r hydref yn tyfu cyn hir.

Rhaid diolch hefyd i bawb a bleidleisiodd dros Ysgol Aberconwy yn siop Tesco Cyffordd Llandudno, gan y bydd yr arian a gawsom drwy Fagiau Cymorth Tesco yn mynd tuag at offer a defnyddiau garddio newydd er mwyn datblygu'r ardd ymhellach.

A dyma'r newyddion gorau o'r ardd ... Rydym newydd gynaeafu ein hafal Aberconwy cyntaf! Cynaeafwyd yr Afal Diemwnt (math Cymreig, prin) a'r rhiwbob gan fyfyrwyr Hafan Ysgol Aberconwy er mwyn cael te bach ganol prynhawn!



Ydych chi wedi gweld ein fideo tu ôl i'r llenni yn ein ffotograff ysgol gyfan?



Roedd ein noson agored yn llwyddiant ysgubol ...

Diolch arbennig i'r holl fyfyrwyr a fu'n ein cynorthwyo yn ystod y noson. Cawsom adborth hyfryd gan rieni'r plant a fydd yn dod atom fis Medi nesaf ynglŷn â pha mor wybodus a chyfeillgar oedd pawb.





Llwyddiannau ym maes chwaraeon...

Cyfleoedd blwyddyn gap ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth ...

Diolch i'r Project Trust a fu'n ymweld â'n myfyrwyr Chweched Dosbarth yn ddiweddar.

Cafodd y myfyrwyr gyfle i glywed pa gyfleoedd blwyddyn gap sydd ar gael iddynt. Mae lleoliadau ar gael ar draws Affrica, Asia ac America. Mae'n cynnig cyfle i'r myfyrwyr ddysgu amdanynt hwy eu hunain, ond hefyd i gyfarfod â phobl o bob rhan o'r byd a phrofi diwylliannau gwahanol.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'w gwefan
www.projecttrust.org.uk



Mae teledu Ysgol Aberconwy yn fyw ...

I wybod y newyddion diweddaraf o'r ysgol, gwyliwch ein sianel YATV. Ein myfyrwyr Chweched Dosbarth sydd wedi creu'r sianel...



Mae'n anodd credu ein bod ni wedi llwyddo i wneud yr holl bethau hyn a gweithio'n galed yn y dosbarth hefyd!

Cofiwch ddilyn yr ysgol ar ein tudalen Gweplyfr a Thrydar er mwyn cael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf!



Llongyfarchiadau i Kiana Brown am ennill ei Gwobr Achub Bywyd.



Llongyfarchiadau i Marnie Cockrill am ddod yn 2il gyda'i phartner Megan Gibson yn eu dosbarth yng Nghystadleuaeth hwylio RYA yn Abergwaun ym mis Medi.

Da iawn i Mia Rawling a chwaraeodd i Gymru dan 15 oed ym Mharc St Georges.



Diwrnod Adfywio'r Galon!

Nododd Ysgol Aberconwy 'Diwrnod Adfywio'r Galon' Ddydd Llun, Hydref 16ef drwy hyfforddi mwy na 650 o fyfyrwyr mewn un diwrnod i wneud Cymorth Cyntaf a CPR sylfaenol!



Mynychodd staff a myfyrwyr Ysgol Aberconwy sesiynau hyfforddi drwy'r dydd, ac erbyn hyn maent yn perthyn i Genedl o Achubwyr Bywyd Sefydliad Prydeinig y Galon. Drwy ddysgu CPR, maent wedi dysgu sgiliau a allai achub bywydau yn ein cymunedau.

Da iawn ti, Chloe Ellison

Llongyfarchiadau i **Chloe Ellison** am godi £123.65 ar gyfer elusen Future Fertility Trust drwy drefnu taith nodedig. Ar ben hynny, llwyddodd i godi ymwybyddiaeth o'r elusen hon, sy'n helpu plant sy'n dioddef o ganser i ddiogelu eu ffrwythlondeb cyn derbyn triniaeth. **Da iawn ti Chloe!**